

Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych



Rhodddwyd hysbysiad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer ysbyty cymuned newydd ar safle Ysbyty Brenhinol Alexandra, Rhodfa'r Môr, y Rhyl.

Bydd yr ysbyty newydd, a fydd yn cael ei adeiladu nesaf at Ysbyty Brenhinol Alexandra sydd eisoes yn bod, yn cynnwys cyfleusterau modern ac addas i bwrpas ar gyfer gwasanaethau newydd a rhai sydd eisoes yn bod ar y safle. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys:

- Gwelyau cleifion mewnol
- Gwasanaethau i drin mân anafiadau ac anhwylderau
- Swït therapiau mewnwythiennol
- Hwb lles cymunedol a chaffi cymunedol


Bydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn yr haf, gan obeithio y bydd gwaith yn dechrau ar y safle yn gynnar yn 2021.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyflwyno'r cynllun fel cyfle i breswylwyr y Rhyl roi adborth ar y datblygiad cyn cyflwyno'r cais a byddwn yn eich annog i gymryd rhan mewn rhannu eich meddyliau a'ch barn am y prosiect.

Gellir dod o hyd i fwy o fanylion am y cynigion ar wefan y Bwrdd Iechyd, yn cynnwys fideo hedfan drwodd i roi syniad o sut fydd yr ysbyty newydd yn edrych ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Gall unrhyw un sy'n dymuno rhoi adborth ar y prosiect wneud hynny drwy ein gwefan;

bcuhb.nhs.wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

